Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2009**

Teitl: Trefniant cyllid newydd ar gyfer AU yng Nghymru

Bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn cael dyraniadau grant o £433.8m yn y flwyddyn academaidd 2009/10, cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bydd y dyraniadau hyn yn galluogi'r sefydliadau i gynnal eu rôl allweddol wrth adeiladu economi â sylfaen wybodaeth gref ar gyfer Cymru wedi'r dirwasgiad.

Mae'r grant yn cynnwys cyllid ar gyfer mentrau addysgu, ymchwil, cyfalaf a mentrau arbennig mewn prifysgolion yng Nghymru. Mae'r cyllid addysgu hefyd yn cefnogi cyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach ledled Cymru. Yn ychwanegol, mae £34.6m ar gael yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10 i gefnogi strategaethau Addysg Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys *Ymgeisio yn Uwch* a *Chymru'n Un*. Mae'r dyraniadau yn adlewyrchu cynigion cyllideb cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yn 2009-10 a 2010-11.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn dilyn sawdl Menter Cefnogi Economaidd CCAUC a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn annog prifysgolion i gynyddu eu hymdrechion i gefnogi'r economi. Mae'n cydnabod rôl prifysgolion fel cyflogwyr mawr – y mwyaf mewn llawer rhan o Gymru – ac fel ysgogwyr allweddol eu heconomïau lleol.

Dywedodd Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC: "Mae'n hanfodol, yn y cyfnodau economaidd heriol hyn, ein bod yn ymestyn y cyfleoedd i bobl Cymru hyfforddi

neu ailhyfforddi, neu wella eu lefelau sgiliau er mwyn hybu eu rhagolygon cyflogaeth.

“Mae sefydliadau addysg uwch yn rhoi llawer mwy yn ôl i economi Cymru na lefel y buddsoddiadau cyhoeddus a gânt. Trwy ddatblygu gweithlu hynod fedrus, cynhyrchu gwybodaeth a defnyddio’r wybodaeth honno, gellir dadlau bod addysg yn ffurfio sylfaen bwysig ar gyfer adferiad yn dilyn yr amgylchiadau economaidd cyfredol yng Nghymru.”

Bydd cyfanswm y prif ddyraniadau ar gyfer addysgu ac ymchwil yn 2009/10 yn fwy na £380m. Trefnwyd bod £30m arall ar gael ar gyfer ystod o flaenoriaethau strategol eraill, gan gynnwys gwaith prifysgolion gyda busnes a chymunedau (Cyllid Trydedd Cenhadaeth).

Mae’r dyraniadau ymchwil yn ystyried canlyniadau’r Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE) 2008, a oedd yn ystyried ansawdd ymchwil ledled y DU ac a welodd nifer o brifysgolion yng Nghymru yn gwella eu perfformiad, gyda’r sector cyfan fwy neu lai yn cynnal ei safle yng nghyd-destun ymchwil hynod gystadleuol y DU (dim ond yn ail i UDA yn fyd-eang).

Mae angen gallu cryf a chynaliadwy mewn ymchwil i adeiladu ar y wybodaeth sydd ei hangen ar yr economi. I gefnogi rhagoriaeth gynaliadwy mewn ymchwil, yn anad dim mewn pynciau STEMM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth), mae CCAUC wedi cynyddu ei gyllid craidd ar gyfer ymchwil trwy drosglwyddo £6.1m o gronfeydd eraill. Mae hyn yn ymateb i lywio oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio ein cyllid craidd yn fwy strategol er mwyn cefnogi blaenoriaethau allweddol. I annog strategaethau ymchwil sy’n canolbwyntio ar ragoriaeth gynaliadwy – yn enwedig lle mae unedau ymchwil yn fach iawn – rydym wedi defnyddio trothwy isafswm maint ar gyfer ein cyllid ymchwil am y tro cyntaf eleni.

Dywedodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: “Rydym yn disgwyl amgylchedd ariannol tynn ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru, ac yn y cyd-destun hwn, rydym yn falch o weld buddsoddiadau sylweddol parhaus gan y cyhoedd mewn addysg uwch. Rydym wrth ein bodd yn gweld perfformiad ymchwil cryf Cymru yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil ac yn falch o allu cynyddu cyllid ymchwil cyffredinol 3.9 y cant. Wrth edrych nawr i’r dyfodol, yr her yw sicrhau bod ein cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi rhagoriaeth gynaliadwy mewn ymchwil.”

Mae’r dyraniadau Cyfalaf yn 2009/10, sy’n gwneud cyfanswm o £23.75m, wedi cael eu cyhoeddi ar wahân eleni, gan fod y rhain yn ffurfio rhan o becyn cyllid dros dair blynedd i gefnogi Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf prifysgolion. Fodd bynnag, gyda chymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym eisoes wedi cyflwyno taliadau cyllid cyfalaf er mwyn annog prifysgolion i ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd a gwaith cynnal a fydd yn cefnogi’r fasnach adeiladu yn eu hardaloedd lleol.

Rydym yn parhau i hyrwyddo cynnydd yn y sector addysg uwch yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig y rheiny a nodir yn *Ymgeisio yn Uwch*, strategaeth ddeg blynedd y Cynulliad ar gyfer addysg uwch, a gyhoeddwyd yn 2002, a *Chymru’n Un*, yr agenda ar gyfer llywodraeth glymblaid y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn aros am ganlyniadau’r adolygiad cyfredol o *Ymgeisio yn Uwch*, a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn ein cyhoeddiadau’r flwyddyn nesaf.

Mae’r dyraniadau yn ystyried ein gwaith gyda’r sector AU wrth ad-drefnu darpariaeth ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn tair canolfan addysg athrawon. Mewn dwy o’r canolfannau, caiff dyraniadau HCA ar gyfer 2009/10 bellach, eu cyfeirio am y tro cyntaf trwy un yn unig o’r sefydliadau partner. Mae hyn yn effeithio ar y canlyniadau cyhoeddedig ar gyfer eu partneriaid. Rhaid bod yn ofalus iawn felly ein bod yn cadw at ein

harweiniad manwl ar ymdrin â chymariaethau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn gywir.

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion

Cysylltiadau ar gyfer cael rhagor o wybodaeth
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Mae **Atodiad A** yn cymharu'r dyraniadau cyllid ar gyfer 2008/09 a 2009/10.

O ganlyniad i ad-drefnu HCA, symudwyd cyllid, ac mae cyllid a lleoedd myfyrwyr yn benodol bellach yn cael eu dyrannu i'r sefydliad arwain ym mhob o'r partneriaethau Canolfan newydd. Mae hyn yn effeithio ar ddyraniadau i UWIC a Choleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin, sy'n cael eu chwyddo gan y broses hon, ac i Brifysgol Cymru Casnewydd a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, sy'n gyfatebol ddirwasgedig. **O ganlyniad, nid yw bellach yn briodol cymharu cyfanswm y dyraniadau sefydliadol flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, ychwanegwyd colofnau ychwanegol at ffigurau 2009/10.** Mae'r colofnau hyn yn dangos y gwahaniaethau rhwng 08/09 a 09/10 cyn ad-drefnu HCA ac yn galluogi cymhariaeth debyg rhwng y blynyddoedd hynny.

Felly, er mwyn cymharu, defnyddiwch y colofnau yn Atodiad A yn unig, sydd wedi'u cynllunio i ystyried yr addasiad technegol hwn.

Mae **Atodiad B** yn rhoi dadansoddiad, yn ôl maes cyllidebol, o'r dyraniadau cyllid ar gyfer 2008/09 o'u cymharu â'r rheiny ar gyfer 2009/10.

Cylchlythyr W09/06HE – Mae'r Fenter Cymorth Economaidd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y cymorth a ddarperir er mwyn annog y sector addysg uwch yng Nghymru i ymgysylltu er mwyn helpu rhwystro effaith y dirywiad economaidd ar unigolion a chyflogwyr

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC), sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y trefnir ei fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil y mae SAUau yn ymgymryd ag ef; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant addysgu cychwynnol** ar gyfer athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant i athrawon.

Yn ychwanegol i'w gyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon ynghylch cyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.